**Tasg 2**

# Gwylio'r teledu

1. Pa **fathau** o raglenni sy'n cael eu henwi yn y darn ar y we ac yn y testun ar y brif sgrin?

   Gwnewch restr.

2. Rhestrwch **fathau** eraill o raglenni, e.e.

   rhaglenni dogfen
   rhaglenni cylchgrawn

3. Pa **fathau** o raglenni rydych chi'n eu hoffi fwyaf?
   Pa **fathau** o raglenni rydych chi'n eu hoffi leiaf?
   Rhowch resymau i gefnogi'ch barn.

   Gwnewch nodiadau i ddechrau ac yna trafodwch y cwestiynau hyn. Ceisiwch ddefnyddio rhai o'r ymadroddion a'r brawddegau ar y dudalen nesaf wrth drafod.

**Trafod**

Dw i wrth fy modd gyda ... / efo ... achos ...

Dw i'n meddwl bod ... yn ddiddorol dros ben achos ...
hynod o ddiddorol
arbennig o dda

Mae'n gas gen i ... / Mae'n gas gyda fi ... achos ...

Mae'n well gen i ... na ... achos ...
Mae'n well gyda fi ... na ... achos ...

Yn bersonol, dw i'n meddwl bod ... yn ...

A bod yn onest, dw i'n teimlo bod ... yn ...

Heb os nac oni bai, mae ...

**Cytuno / Anghytuno**

Dw i'n cytuno'n llwyr achos ...

Mae hynny'n bwynt da iawn.

Rwyt ti yn llygad dy le.

Dw i'n cytuno cant y cant.

Yn union!

Yn hollol!

Dw i ddim yn cytuno o gwbl achos ...

Dw i ddim yn siŵr am hynny.

4. **Gwylio rhaglenni**
   a. Sut rydych chi'n gwylio rhaglenni fel arfer?

   **ar y teledu?** **ar y we?** **ar ddyfais arall?**

   b. Pa sianel rydych chi'n ei gwylio fwyaf?

   c. Am sawl awr yr wythnos rydych chi'n gwylio rhaglenni ar S4C?

   Gwnewch holiadur i ddarganfod patrymau gwylio'r dosbarth.

   Yna, gwnewch graff i ddangos y canlyniadau.

5. Beth am wylio rhaglen deledu Gymraeg yn y dosbarth?
   Yna, llenwch y grid yma:

| | |
|---|---|
| Enw'r rhaglen? | |
| Pwy sy yn y rhaglen? | |
| Pa fath o raglen yw hi? | |
| Beth sy'n digwydd ar y rhaglen? | |
| Eich barn chi am y rhaglen? Cofiwch roi digon o resymau i genfogi'ch barn. | |